

Birchill Access Consultancy

Rwyf wedi gwneud llawer iawn o waith achos yn ymwneud â Llwybr Arfordir Cymru'n ddiweddar sydd wedi arwain at rai cysylltiadau strategol allweddol. Rhestrir rhai ohonynt isod:-

A Gwyro Llwybr Arfordir Cymru dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, rhwng Gwbert a Mwnt, Ceredigion:-

- Prosesu'r gwriad mewn tri lleoliad gwahanol, o'u dechrau i'w diwedd, ar hyd rhan o Llwybr Arfordir Cymru sy'n dechrau a gorffen rhwng Gwbert a Mwnt.
- Ymweliad hirfaith â'r safle gan ddefnyddio GPS i nodi union leoliad y gwriad.
- Cynnal ymgynghoriad cyn cyflwyno'r gorchymyn, paratoi adroddiad y cyngor, drafftio gorchymynion/cynlluniau cyfreithiol.
- Delio ag un gwrthwynebiad ysgrifenedig arbennig o swmpus oedd yn cynnwys blychau oedd angen eu darllen, eu dadansoddi a'u hatgyfeirio i'r Arolygiaeth Gynllunio. Cynhyrchu Datganiad Achos a Phrawf o Dystiolaeth ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus.
- Cynrychioli'r cyngor fel tyst allweddol yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus a gynhaliwyd dros ddeuddydd, oedd yn cynnwys croesholi dwys
- Roedd y gwriad yn llwyddiannus yn dilyn trafodion pellach yn yr Uchel Lys ac agorwyd y llwybr dros y tir, yn dilyn blynyddoedd o fod ar gau.

B. Gwyro Llwybr Arfordir Cymru dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, Treddol, Ceredigion:-

- Prosesu'r gwriad er budd y perchennog tir a'r cyhoedd, i reoli materion rheoli tir.
- Cynnal ymgynghoriad cyn cyflwyno'r gorchymyn, paratoi adroddiad y cyngor a drafftio'r gorchymyn a'r cynllun cyfreithiol. Hefyd, gwnaed nifer o ymweliadau â'r safle ymlaen llaw gyda grwpiau defnyddwyr a chynghorwyr, am ei bod hi'n arbennig o anodd cwrdd ag anghenion pawb yn yr achos hwn.
- Rheoli'r holl waith contract i greu llwybr newydd, gan gynnwys y ffensio, gosod yr wyneb, ac adeiladu pontbren sylweddol ar gyfer y Llwybr Ceffyl.

C. Aseiad o Orchymyn Creu dan Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, Y Felinheli, Gwynedd

- Dadansoddi'r holl waith papur oedd yn bodoli eisoes ar Orchymyn Creu i ffurfio rhan o welliant posib ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, gan gynnwys archwilio pryderon perchnogion tir.
- Ymweld â'r safle i ymchwilio i'r holl opsiynau posib.
- Cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig manwl ar gyfer y cyngor ynghyd â dadansoddiad o'r canfyddiadau, gan gynnwys y cyd-destun cyfreithiol ac argymhelliad
- O ganlyniad rhoddwyd y gorau i'r Gorchymyn Creu oherwydd cydsyniodd y perchennog tir i ffurfio cytundeb.

Dim ond ychydig o blith y nifer fawr o achosion rwyf wedi delio â nhw'n ddiweddar yw'r uchod. Dros y 12 mlynedd diwethaf rwyf wedi delio â dros 100 o achosion o wyro llwybrau, ac o leiaf 30 o achosion o greu llwybrau.